Yr Ymofynnydd

Rhifyn Mai 2013 £1.75

Cynnal y traddodiad

Mae'r Smotyn Du yn cynnal traddodiad yr eisteddfodau bach. Unwaith eto eleni, roedd yna ddwy eisteddfod lwyddiannus iawn o dan adain ein capeli—Eisteddfod Capel y Groes ym mis Ebrill ac Eisteddfod Capel y Fadfa Talgarreg ddechrau mis Mai.

- Llion Thomas o Lanbed (chwith) oedd enillydd Cadair Capel y Groes — wedi ei rhoi a'i gwneud gan deulu Pantyronnen.
- Enillydd y Gadair yn Nhalgarreg oedd Sarah Down Roberts, Aberystwyth, sy'n hanu o Langeitho. Roedd y gadair wedi'i rhoi gan Mrs Nans Jones a'ei gwneud gan ei hŵyr Clinton, o bren gwern o lannau afon Teifi.
- Enillydd Tlws yr Ifanc oedd Dylan Edwards, Llandre, disgybl chweched dosbarth ym Mhenweddig Aberystwyth..

Y lluniau gan Tim Jones

Y tu mewn:

Dathlu blwyddyn rhyddid

Gwreiddiau Undodaidd Elystan

Cylchgrawn undodaidd a chrefyddol rhydd

Croeso

Croeso i rifyn dechrau'r haf o'r Ymofynnydd a ninnau'n dathlu blwyddyn bwysig iawn yn hanes yr enwad.

Ar dudalen pedwar mae ychydig o hanes y frwydr fawr a fu union ddau gan mlynedd yn ôl i ennill yr hawl i ni addoli yn ôl ein cydwybod. Gydag anoddefgarwch mor amlwg ag erioed mewn sawl rhan o'r byd, mae neges y stori honno mor bwysig ag erioed. Ac mae'n tanlinellu'r cyfraniad arbennig y gallwn ni ei wneud at sicrhau heddwch a thrugaredd.

O ddesg yr Ysgrifennydd

Y Gwanwyn: cyfle i adnewyddu

Carwyn Tywyn yn sôn am ddeffroad y gwanwyn a'r her i Undodiaid

A finnau'n Ysgrifennydd rhan-amser y Gyfadran , mae'n debyg na fyddaf byth yn filiwnydd. Serch hynny, mae yna rai pleserau neu "*perks"* ynghlwm â'r swydd sy'n fy nghyfoethogi mewn ffyrdd eraill, llai materol.

Un o'r rheiny yw cael cyfleon lu i yrru o waelodion diwydiannol Sir Gaerfyrddin i gefn gwlad Ceredigion. I mi, does unman tebyg i Geredigion yn y gwanwyn: cynhesrwydd yr haul, arogl gwair sydd newydd ei dorri a chennin Pedr ysblennydd yn y cloddiau. Mae'r cyfan yn dod ag atgofion melys yn ôl o hen ddyddiau diniwed plentyndod, pan oeddwn yn grwt yn Aberystwyth.

Rwy'n siŵr bod pob un ohonon ni'n croesawu diwedd y gaeaf caled, hir y buom i gyd yn gaeth iddo, yn croesawu'r heulwen ac yn erfyn am haf hir, cynnes a phleserus. Mae natur eithafol gaeaf 2012-13 yn codi cwestiynau dybryd am ein hamgylchedd, megis y lleihad yn iâ yr Arctig, a'r sgil effeithiau ar ein tywydd a'n tymhorau. Stori arall yw honno – ond mae'n cynnig thema bosibl i ni yn ein gwasanaethau a'n hymgyrchoedd cyhoeddus.

Wrth gwrs, yng ngwledydd y Gorllewin, mae'r gwanwyn yn dymor i ddathlu adnewyddu o bob math. Ers y dyddiau cyn-Gristnogol, mae paganiaid wedi dathlu Duwies Ostara/*Oestre* yr adeg hon o'r flwyddyn, gan ddiolch am ffrwythlondeb y tymor newydd. Dyma thema sydd wrth gwrs yn gyfarwydd yn rhai o gerddi'r Cardi nwydus hwnnw, Dafydd ap Gwilym!

Mae yna rai yn rhengoedd yr Undodiaid (megis un aelod o Rydychen, Yvonne Aburrow) sydd yn dal i ddathlu'r hen wyliau paganaidd yn ddidwyll. Ac i lawer o Gristnogion, mae Gŵyl y Pasg yn cynrychioli'r adnewyddu eithaf, sef bywyd tragwyddol trwy atgyfodiad Iesu Grist.

Fel Undodiaid eleni, mae'n anodd i ni sôn am "adfywiad", heb sôn am "atgyfodiad". Rydym i gyd yn hen gyfarwydd â'r problemau sydd yn ein hwynebu. A bu gaeaf 2012-13 yn nodedig o greulon wrth inni golli nifer o aelodau a chyfeillion o'n henwad ac o'n hardal.

Serch hynny, rwy'n gobeithio bod ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf wedi plannu ryw fath o hedyn at y dyfodol. Bu nifer ohonoch yn gweithio'n galed ar faterion "bara menyn" fel cyfansoddiadau, ymddiriedolwyr, polisïau diogelu ac yn y blaen. Rwy'n ddiolchgar iawn i chi fel Cymdeithas am gydweithio gyda mi wrth lunio'r gweithdai hwyrol i drafod y materion yma – fel yr un a fu yng Nghapel Rhydygwin ar yr ail o Fai.

Y tro hwnnw, y thema oedd "arweinyddiaeth", i drafod sut y gall cynulleidfaoedd symud ymlaen pan fydd – yn hwyr neu'n hwyrach – newid yn sefyllfa gweinidogion Ceredigion. Eisoes, mae cynulleidfaoedd de-ddwyrain Cymru yn cynnal eu hunain heb weinidog llawn amser. A fydd hynny'n bosib yng Ngheredigion? Os felly – sut? Fel crwtyn gwleidyddol a phenboeth, roedd fy nhaid (Y Parch. Iorwerth Jones, Cyn-Ysgrifennydd yr Annibynwyr Cymraeg) yn ddylanwad pwysig arnaf. Rwy'n cofio iddo esbonio mai gwraidd y gair "radical" oedd y gair Lladin "radics" - gwreiddyn.

Hynny yw, mae bod yn "radical" yn fwy na chreu slogan neu ddelwedd. Mae'n golygu mynd i'r afael â'r materion sydd wedi eu cuddio'n ddwfn yn yr enwad (neu ynon ni fel unigolion). Gadewch i ninnau fel enwad gael ein dwylo'n frwnt y gwanwyn hwn trwy fynd i'r afael â rhai o'r *radics* anodd - megis y cwestiwn o bwy fydd yn ein harwain ymhen pump neu ddeng mlynedd.

Gyda diolch am bob cefnogaeth.

Holi hwn a hon …

Yr ail mewn cyfres , yn holi rhai o aelodau a ffrindiau ifanc yr enwad.

Enw: Heini Anne Thomas
Oed: 25
Gyrfa: Llyfrgellydd a swyddog gohebiaeth yn Ysgol Bro Pedr, Llanbed.
Pa gapel: Rwy'n aelod diwyd o gapel Brondeifi ac yn athrawes yn yr Ysgol Sul.

Pam wnest ti benderfynu dod yn Undodwraig? Mae'r Undodiaid bob amser wedi bod yn bwysig i mi, roeddwn yn mynychu'r Ysgol Sul yn Brondeifi pan oeddwn yn ifanc ac yn mwynhau'r gwersi a oedd yn llawn crefftau a pharatoi ar gyfer y gwasanaeth Nadolig. Cam naturiol oedd dewis dod yn aelod gan mai ymuno â ffrindiau a chyfeillion yr oeddwn i.

Beth wyt ti'n meddwl sy'n gwneud Undodwr da?
Person sy'n gyfeillgar, bob amser yn barod i helpu eraill ac sy'n gweld pwysigrwydd cadw'r traddodiadau'n fyw.

Disgrifia'r Undodiaid mewn 3 gair.
Teulu mawr cyfeillgar.

Beth yw'r atgof/ digwyddiad gorau sydd gennyt yn ymwneud â'r enwad?
Un o'm hoff ddigwyddiadau oedd mynd â phlant yr Ysgol Sul i Tŷ Hafan adeg eu diwrnod agored yn 2009 i gyflwyno siec. Pleser mawr oedd gweld y plant yn disgrifio pwysigrwydd y cartref i'w rhieni wrth i ni gael ein tywys o amgylch yr adeilad, ac yn ymfalchïo yn eu gwaith caled yn codi'r arian.

Beth wyt ti'n mwynhau ei wneud yn dy amser sbâr?
Rwy'n hoff iawn o wneud amrywiaeth eang o bethau yn fy amser sbâr, gan gynnwys darllen, gwneud cardiau, helpu yn Siop y Smotyn Du a mynd i'r sinema gyda ffrindiau.

Ble wyt ti fwyaf hapus?
Yng nghanol y paent a'r glud gyda'r plant ar fore Sul.

Heini yn ie helfen—gyda'r plant ar fore Sul

Beth yw rôl ieuenctid o fewn yr enwad?
Yr ieuenctid yw dyfodol yr enwad, nhw sy'n gyfrifol am gadw'r traddodiadau'n fyw ac mae'n bwysig i ni eu cefnogi ymhob ffordd y gallwn.

Beth hoffet ti weld yr enwad yn ei wneud i bobl ifanc?
Hoffwn weld llawer mwy o gysylltiadau'n digwydd rhwng y capeli a gweld mwy o glybiau ieuenctid yn datblygu a chryfhau unwaith eto.

Cofio blwyddyn rhyddid

Union 200 mlynedd yn ôl y cafwyd deddf newydd i roi hawliau crefyddol i'r Undodiaid ... ... ac roedd gan Undodiaid Cymru ran mawr yn y digwyddiadau.

Mae stori rhyddid addoli i'r Undodiaid yn cynnwys tad-cu i Florence Nightingale, Cymro enwoca'i ddydd, cymeriad lliwgar a gafodd y bai am fynd â brenin oddi ar y rêls ... a Chymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Tan 1813, yn swyddogol, roedd Undodiaeth yn anghyfreithlon. Er nad oedd sôn am achosion o bobl yn cael eu taflu i'r carchar am addoli, doedd gan Undodiaid – neu unrhyw un oedd yn gwadu'r Drindod – ddim hawl i ddal uchel swyddi'r Wladwriaeth.

Un o'r rheiny oedd William Smith, aelod seneddol tros Norwich, a oedd yn Undodwr ac a fyddai yn weddol sicr wedi dal swyddi uchel iawn oni bai am hynny. Ei ddeddf ef a newidiodd y sefyllfa yn 1813 ac ef oedd tad-cu'r nyrs Florence Nightingale.

Cyn hynny, roedd Deddf Goddefgarwch 1689 wedi rhoi rhyddid crefyddol i gapelwyr oedd yn derbyn y Drindod tra oedd Deddf Cabledd 1697 yn ei gwneud yn drosedd i wadu'r Drindod. Y gosb am drosedd gynta' oedd gwaharddiad rhag dal swyddi; yn ffurfiol, fe allai'r gosb am ail drosedd gynnwys carchar.

O Gymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru y daeth deiseb i'r Senedd ar ddechrau 1813 yn galw am y newid. David Davis, Castell Nedd, mab Dafydd Dafis Castell-hywel oedd y tu cefn i honno. Ac mae'n debyg mai dyna'r tro cynta' i'r Undodiaid eu hunain gyflwyno deiseb o'r fath i'r Senedd.

Roedd y ddeiseb yn dilyn unfed cyfarfod ar ddeg y Gymdeithas yn Aberdâr y flwyddyn gynt, pan oedd y penderfyniadau hefyd yn cynnwys datganiad yn mynnu hawl pawb i addoli yn ôl ei gydwybod ei hun.

Roedd y datganiad yn disgrifio'r Undodiaid fel hyn: "ffrindiau i ryddid cydwybod cyffredinol a dilyffethair" ac yn dweud bod y deddfau a oedd yn cosbi Undodiaid yn tynnu'n groes i "egwyddorion Rhyddfrydol yr oes oleuedig hon".

"Mae addoli Duw yn unol â gorchymyn ei gydwybod ei hun," meddai awduron y datganiad, "yn ogystal â bod yn hawl naturiol a di-wad i bob bod dynol ... [mae] hefyd yn brif ddyletswydd iddo"

Mae cofnod o hyn yn un o lythyron David Davis at Iolo Morganwg (yn y cyfrolau llythyrau sydd wedi eu cyhoeddi gan y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn Aberystwyth) ac mae hwnnw'n dangos un peth diddorol arall – fod yr Undodiaid eisiau gweithio ochr yn ochr â'r Pabyddion i sicrhau rhyddid cydwybod.

Ar un adeg, fe fyddai hynny wedi ymddangos yn rhyfedd gan fod deddfau llym yn erbyn y Pabyddion . Ond, erbyn 1813, roedd hi'n ymddangos bod Anghydffurfwyr radical yn cael eu gweld yn fwy o fygythiad. Mae'n debyg mai'r Chwyldro Ffrengig oedd yn gyfrifol am hynny, gydag Undodiaid amlwg yng Nghymru, fel Iolo a Tomos Glyn Cothi, yn adnabyddus am eu cefnogaeth i'w egwyddorion.

"Roedd y radicaliaid yn cael eu cyhuddo o fod eisiau cael gwared ar y brenin, a'r esgobion a'r drefn fel yr oedd hi …"

Un arall oedd Cymro mwya' dylanwadol ei ddydd, Dr Richard Price, y meddyliwr mawr o ardal Pen-y-bont ar Ogwr a fu, am gyfnod yng nghanol y ddeunawfed ganrif, yn weinidog eglwys Undodaidd Newington Green yn Llundain.

Tua diwedd ei oes, yn 1789 ac 1790, roedd wedi dadlau yn erbyn deddfau crefyddol a oedd yn mynnu bod rhaid i bawb ddilyn egwyddorion Eglwys Lloegr.

Roedd un o gymeriadau gwleidyddol mwya' lliwgar y cyfnod hefyd yn rhan o'r frwydr – dyn o'r enw Charles James Fox a chyn Ysgrifennydd Tramor. Yn nechrau'r 1790au, roedd yntau wedi ceisio cael gwared ar y deddfau yn erbyn Undodiaeth ond wedi methu.

Mae'r cartŵn yn gwawdio un o'r ymgyrchoedd i gael gwared ar ddeddfau o'r enw y Test and Corporation Acts a oedd yn mynnu bod rhaid i bobol mewn swyddi cyhoeddus a milwrol fod yn fodlon derbyn y cymun yn



ôl cred Eglwys Loegr. Y pregethwr yn y cartŵn yw Joseph Priestley, Undodwr enwoca'r cyfnod.

Roedd Fox hefyd wedi ymgyrchu yn erbyn deddfau newydd yr oedd Pitt wedi eu cyflwyno yn sathru ar hawliau sifil pobol. Roedd Pitt yn ddadlau bod hynny'n angenrheidiol i warchod y Deyrnas rhag bygythiad ymosodiad o Ffrainc—yn ddigon tebyg i rai o'n deddfau ni heddiw.

Fel y gwelodd Tomos Glyn Cothi, pan gafodd ei anfon i'r carchar ar honiad o ganu cân yn dilorni'r brenin, roedd ofn ymyrraeth o Ffrainc yn arwain at weithredu llym.

Roedd Charles James Fox yn elyn mawr i'r brenin ar y pryd, George III, ac yn ffrindiau mawr gyda'i fab, a ddaeth wedyn yn George IV. Fox oedd yn cael y bai am fynd â'r tywysog ar gyfeiliorn ym myd y ddiod a menywod – roedd y ddau fel ei gilydd yn yfwyr a merchetwyr mawr.

Er ei fod yn ei ddydd yn cael ei ystyried yn ddyn ifanc smart a ffasiynol, roedd maint corff Fox erbyn y diwedd yn awgrymu ei fod wedi dilyn ychydig gormod ar ambell i ffasiwn.

Beth bynnag am ei foesau personol, roedd Fox yn ymgyrchydd brwd tros hawliau – yr unig ymosodiad peryglus, meddai, oedd yr ymosodiad ar gyfansoddiad Prydain gan rai fel Pitt. Ac, oherwydd eu cydymdeimlad gyda Ffrainc, roedd rhai fel y Prif Weinidog yn fwy gwyliadwrus o'r radicaliaid crefyddol nag o'r hen elyn Pabyddol.

Yn 1791 yr oedd tyrfa wedi ymosod ar labordai a thŷ cwrdd y patriarch Undodaidd, Joseph Priestley, yn Birmingham am fod y radicaliaid wedi trefnu parti i ddathlu cwymp y Bastille yn Ffrainc. Roedd hynny'n arwydd o ffyrnigrwydd yr ofn o Ffrainc a'r gweriniaethwyr, gyda'r radicaliaid yn cael eu cyhuddo o fod eisio cael gwared ar y brenin, yr esgobion a'r drefn fel yr oedd hi.

Dyna ran o'r rheswm pam, erbyn 1813, yr oedd yr Undodiaid yn fodlon cydweithio gyda'r Pabyddion, er mawr syndod i'r rheiny.

Ond, efallai bod y ffyrnigrwydd mawr heibio erbyn hynny hefyd. Yn y diwedd, fe gafodd mesur William Smith ei basio heb fawr o ddadlau ac fe gafodd yr Undodiaid yr hawl swyddogol i addoli a dal swyddi cyhoeddus.

Er ei bod wedi cymryd tan 1967 i gael gwared yn llwyr ar y Ddeddf Gabledd, 200 mlynedd yn ôl y daeth rhyddid cymharol i'r Undodiaid.

Newyddion y capeli

Aberdâr

Mae aelodau Capel Highland Place yn dal i fod yn weithgar. Yn ddiweddar, dechreuwyd **Bore Coffi** bob dydd Llun ar gyfer y gymuned leol a daw rhwng pymtheg ac ugain i fwynhau sgwrs neu weithgarwch arall am rhyw ddwyawr.

Bob dydd Mawrth, cynhelir **Cornel Crefft** pan ddaw pobl at ei gilydd i ymarfer eu crefft ac i ddysgu oddi wrth ei gilydd.

Mae pump aelod ar hugain yn mynychu cyfarfodydd **Urdd y Benywod** gyda rhaglen amrywiol bob dydd Mercher.

Mae'r rhaglen yn cynnwys siaradwyr ar wahanol bynciau, dadleuon, trafodaeth ar hoff gerddoriaeth a barddoniaeth, rhaglen gwis, ymweld â gwahanol lefydd yn yr ardal ag ati.

Bob dydd Iau , mae Band Ieuenctid yn defnyddio'r neuadd a Chlwb Ieuenctid bob nos Fercher. Felly mae rhywbeth at ddant pawb.

Mae'r **Clwb Plant** yn cyfarfod ar foreau Sul yng ngofal Joy a Joan ac yn mynd o nerth i nerth bellach wedi cyfnod o rai blynyddoedd heb weithgarwch plant ar y Sul.

Cydymdeimlo

Blin cofnodi marw dwy aelod yn ddiweddar: Nina Lloyd, a oedd yn gyn drysorydd, a Myra Gordon a ymunodd gyda'r gynulleidfa pan ymddeolodd o gadw gwesty yng Nghaeredin. Roedd yr angladdau yng ngofal y Parch Eric Jones.

Cyfansoddwr prysur

Mae Dyfan Jones wedi bod yn brysur gyda'i waith fel cyfansoddwr a chyfarwyddwr cerdd i Sioeau "Rape of the Fair Country" , "Dyled Eileen" (hanes ymgyrch Eileen Beasley o Langennech yn erbyn Cyngor Llanelli).

Ar hyn o bryd, mae'n paratoi sioe gerdd ar fywyd Dorothy Squires o'r Rhondda.

Bydd y sioe hon eto yn cael ei pherfformio ar draws Cymru.

Y GA

Bu pedwar o aelodau yng nghyfarfodydd blynyddol y General Assembly yn Nottingham dros y Pasg a chafwyd trafodaeth ar y gwahanol weithgareddau yn y cyfarfodydd hynny.

Edrychir ymlaen at y Ddarlith Flynyddol ym Mis Medi pan fydd Huw Williams yn darlithio ar Fudiad y Siartwyr.

Dyddiad derbyn newyddion i rifyn nesaf Yr Ymofynnydd: 28 Mehefin

Cofiwch dynnu lluniau o ddigwyddiadau yn eich capeli ac anfon gwybodaeth am ddigwyddiadau sydd i ddod hefyd.

Urdd y Benywod Ceredigion

Cynhaliwyd ein cinio blynyddol nos Iau, Mawrth 21, yn Nhafarn Glan yr Afon, Talgarreg. Hyfryd oedd gweld nifer yn bresennol o wahanol gapeli i ymuno â'r Llywydd Cenedlaethol, Mrs Ann Harrison, o West Bromwich, ynghyd â'i gŵr, Ken. Croesawyd a diolchwyd i bawb gan Mattie Evans, ein Llywydd ni.

Brondeifi

Cydymdeimlo

Bu'n gyfnod trist iawn yn hanes Brondeifi o fis Tachwedd 2012, pan fu'n rhaid i ni ffarwelio â nifer fawr o aelodau a chyfeillion y capel. Ym Mis Tachwedd, bu farw Mrs Jennie Jones, Gwêl y Gelli, Bryn yr Eglwys, sef mam John Abel Jones a'i chwaer Mrs Nan Griffiths ateulu. Estynnwyd cydymdeimlad diffuant â hwy a hefyd Dafydd a Delyth Jones, Ffosyffin, ar farwolaeth Mrs Audrey Rees, chwaer Dafydd - eto ym mis Tachwedd.

Bu mis Ionawr yn gyfnod creulon a thrist hefyd a chydymdeimlodd y Gweinidog yn deimladawy iawn â theuluoedd dwy aelod ffyddlon ac annwyl iawn i'r capel.

Bu farw Mrs Phyllis Jones, Cilgell, ar y 18fed o'r mis ar ôl dioddef ers tipyn. Bu'n ddiacon ffyddlon a chyn-ysgrifennydd y capel ac yn ysgrifennydd Urdd y Benywod ers blynyddoedd maith.

O fewn ychydig oriau i'w marwolaeth bu farw aelod arall yn greulon o sydyn, sef Mrs Gwennie Douch, Glynderi, Cwmann. Hithau hefyd yn aelod gweithgar a ffyddlon tu hwnt o'r capel ac Urdd y Benywod.

Bu gwasanaeth angladdol y ddwy ar y 23 a 24 Ionawr a chladdwyd gweddillon y ddwy ym mynwent Brondeifi.

Wrth ffarwelio â'r ddwy talodd eu Gweinidog deyrngedau clodwiw iddynt. Mrs Ceinwen Evans fu'n cyfeilio yn angladd Mrs Phyllis Jones a Mrs Eleanor Russell yng ngwasanaeth Mrs Gwennie Douch.

Yn anffodus cafwyd achlysur arall o fewn cyfnod byr i gydymdeimlo â theulu y diweddar Mrs Phyllis Jones pan fu farw ei brawd, Mr Edwin Evans, Brynderw yn sydyn.

Daeth tristwch hefyd i aelwyd teulu'r Mans pan fu farw Mrs Enfys Williams o Langain, sef priod Mr David Williams sydd yn nai i Mrs Beti Evans. Dim ond 52 oed oedd hi. Cydymdeimlir â'r teulu i gyd yn eu siom a'u hiraeth.

Cydymdeimlir hefyd yn ddiffuant â theulu Mr Glyn Williams, Macpelah, a oedd wedi ymgartrefu am nifer o flynyddoedd yng Nghartref Preswyl Hafan Deg a hefyd â Mrs Glesni Thomas, aelod ffyddlon o Urdd y Benywod, ar farwolaeth ei mam, Mrs Gwyneth Jenkins, Crugybar.

Cydymdeimlir â phawb arall sydd wedi colli anwyliaid.

Casgliadau at Elusennau

Fore Sul, 23 Rhagfyr cynhaliwyd gwasanaeth Carol, Cerdd, Cân a Chracer a chafwyd darlleniadau addas ac anerchiad pwrpasol gan y Parch Goronwy Evans yn egluro mai ystyr y cracer i Brondeifi eleni oedd cael yr hen organ wedi ei hail-adeiladu fesul darn gan greu organ newydd sbon.

Derbyniwyd cyfraniad hael o £200 gan Mrs Eirene Jones (Cefn-llwyn gynt), aelod hyna'r capel, i agor cronfa adnewyddu'r organ.

Penderfynwyd y byddai casgliad y cyfarfod yn mynd at Apêl Elain a chodwyd cyfanswm o £193.87. Derbyniwyd llythyr caredig oddi wrth rieni Elain sef, Gareth a Bridget James, yn cydnabod y cyfraniad hael at yr Apêl. Hefyd yn nhymor y Nadolig, cyflwynwyd y swm o £150.50 i'r Ambiwlans Awyr drwy law Mrs Ros Jones, sef dewis elusen Brondeifi adeg gwasanaeth Sul pen-wythnos Eisteddfod Syr Rhys Thomas James ddiwedd mis Awst

Cydnabod Gwasanaeth

Cafwyd y fraint eto o groesawu'r Parch Alun Wyn Dafis a Mrs Doreen Jones atom i gynnal gwasanaethau, a chynhaliodd yr aelodau hefyd ddau wasanaeth a oedd wedi eu paratoi gan y Gweinidog gyda Mr Arthur Roderick a Mrs Heini Thomas yn eu cydlynu, y naill ym Mis Tachwedd a'r llall ar Sul y Mamau.

Diolch iddynt eu dau ac i bawb a fu mor barod i gymryd rhan yn y gwasanaethau yma ac i'r organyddion a fu yn cymryd eu tro yn ystod y cyfnod.

Fandaliaeth

Siom enfawr i'r Gweinidog, swyddogion ac aelodau Brondeifi oedd darganfod bod drwgweithredwyr wedi torri i mewn i'r Capel ar noson ym mis Mawrth ac wedi creu difrod trwy dorri ffenestr a chynnau tân yn ystafell y Gweinidog. Yn ffodus, er yn ddigwyddiad brawychus, gallai'r canlyniad fod llawer iawn gwaeth. Mae'r digwyddiad yn dal i fod yn nwylo'r heddlu a gobeithir y ceir hyd i'r troseddwyr yn fuan.

Dathlu Gŵyl Ddewi

Cafwyd gwasanaeth hyfryd iawn i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant.

Fe fu disgyblion yr Ysgol Sul yn eu gwisgoedd traddodiadol yn cyflwyno hanesion am Dewi Sant mewn gair a chân.

Gwahoddwyd Sian Elin i roi braslun o'i thaith i Batagonia yr Hydref diwethaf o dan gynllun yr Urdd. Soniodd am yr anrhydedd o gael ei dewis i ymweld â'r Wladfa, am y profiadau amrywiol a gafodd ac am y wefr o glywed y Gymraeg a gweld enwau Cymraeg ar gartrefi a busnesau. Diolchodd am y gwahoddiad ac i bawb a fu mor garedig â'i noddi at y siwrne.

Yn dilyn, mwynhawyd cawl ac amrywiaeth o bwdinau blasus a baratowyd ar ein cyfer gan Mrs Delyth Jones a'i chynorthwywyr.

Diolchodd y Gweinidog i bawb a fu'n gyfrifol am wneud y gwasanaeth yn llwyddiant a gorffennwyd drwy gydganu darnau tymhorol o waith y diweddar Miss Eiddwen James o'i chyfrol 'Cofio'.

Sul Pawb Ynghyd

Daeth cynulleidfa dda ynghyd i'r gwasanaeth yma ar Sul y Blodau gyda rhai aelodau wedi gwneud ymdrech i deithio cryn bellter. Derbyniwyd rhai ymddiheuriadau ac, wrth fwrdd y cymun, cydymdeimlwyd â phawb a oedd wedi colli anwyliaid ers yr adeg hon y llynedd a chofiwyd at bawb a oedd yn methu â bod yn bresennol oherwydd afiechyd neu henaint.

Capel y Bryn

Profedigaeth

Bu farw Rachel Davies, Afonog, Cwrtnewydd, ar Dachwedd 24, 2012. Fe'i claddwyd yn mynwent Capel y Bryn a chynhaliwyd y gwasanaeth dan ofal Y Parch. Wyn Thomas ar Ragfyr 1. Sharon Long fu'n gwasanaethu wrth yr organ. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'r holl deulu yn eu colled.

Bu farw Iscoed Jenkins, Treforys (Tancoed) ar Ragfyr 18. Bu'r gwasanaeth yn Amlosgfa Treforys

ar Ionawr 2, 2013, dan ofal Y Parch. Wyn Thomas. Cydymdeimlwn yn fawr gyda'r teulu.

Bu farw Hannah Jones (Cwmnant gynt) yn 101 mlwydd oed ar Ionawr 5. Fe'i claddwyd ym mynwent Capel y Bryn ar Ionawr 16. Y Parch. Wyn Thomas fu'n gwasanaethu a Mrs Helena Lewis fu'n gwasanaethu wrth yr organ. Cydymdeimlwn yn fawr gyda'r teulu.

Bu farw Llew Thomas, Aberystwyth, priod y diweddar Dilwen Thomas, ar Ionawr 14. Cynhaliwyd gwasanaeth dan ofal y Parch Wyn Thomas yng Nghapel y Bryn ac fe gladdwyd Llew yn y fynwent ar Ionawr 23. Bu Mrs Hefina Davies yn gwasanaethu wrth yr organ. Cydymdeimlwn yn fawr gyda'r teulu.

Bu farw John Evans, Nantmeddalfach, ar Ionawr 25ain. Fe'i claddwyd ym mynwent Capel y Bryn ar Ionawr 31 dan ofal ein gweinidog Y Parch Wyn Thomas. Bu Hefina Davies yn gwasanaethu wrth yr organ. Cydymdeimlwn yn fawr gyda'r teulu.

Bu farw Haydn Evans, Brynllwyd ar Ebrill 1. Cynhaliwyd y gwasanaeth yn y Capel ar Ebrill 8 gyda'r Parch. Wyn Thomas yn gwasanaethu a Meleri Williams wrth yr organ. Cydymdeimlwn yn fawr gyda'r teulu.

Tŷ Capel

Croeso i Mrs Anne Taylor i'r Tŷ Capel. Gobeithio eich bod wedi ymgartrefu yno.

Aelodau Newydd

Braf oedd croesawu Gareth a Wendy Evans, Parcyrhos, yn aelodau newydd i'r capel yn ddiweddar.

Capel Caeronnen

Priodas

Llongyfarchiadau i Dai ac Erin Green, Tŷ Capel Caeronnen, ar eu priodas yn Sulgrave, Banbury.

Cyrddau'r Gymdeithas

Croesawyd Cyrddau'r Gymdeithas Deheudir Cymru i Gaeronnen, ddydd Sul 7 Hydref. Anerchwyd gan Gwynn Pritchard, Caerdydd. Diolchwyd iddo gan ein gweinidog, Y Parch. Cen Llwyd, diolchodd hefyd i J.Eirian Jones am ei gwasanaeth wrth yr organ. Yn dilyn lluniaeth, wedi ei baratoi gan wragedd y Capel, cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas dan lywyddiaeth Elaine Davies.

Diolchgarwch

Ddydd Sul 28 Hydref, cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch, yng ngofal ein gweinidog Y Parch Cen Llwyd.

Diolchodd y gweinidog i Ceinwen Roach am ei gwasanaeth wrth yr organ, ac i bawb a ddaeth i'n cefnogi.

Capel-y-Cwm

Priodas Berl

Dathlodd Gareth a Nanna Ryder eu Priodas Berl yn ystod mis Mawrth. Iechyd da i'r dyfodol.

Pen-blwyddi Arbennig

Dathlodd Mrs Elenid Jones, Talar Wen, ac Eleri Jenkins, Bryngolau, ben-blwyddi arbennig yn ddiweddar. Gobeithio eich bod eich dwy wedi mwynhau'r dathlu.

Siarad Cyhoeddus Cymraeg CFfI

Enillodd Einir Ryder Tyngrug-ganol [Clwb Pontsian], wobr gyntaf y Cadeirydd dan 26, ac roedd hefyd yn aelod o'r tîm buddugol dan 26 oed yng Ngheredigion a Chymru.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir â Mary a John Jones, Penrheol, a Theulu Blaenhirbant Uchaf ar golli modryb a hen fodryb, Miss Margaret Evans o Bontsian.

Cwrdd a Choeden Nadolig

Yn ôl y traddodiad, cafwyd gwasanaeth fore dydd Nadolig yng

Capel-y-Cwm (parhad)

nghwmni'r Parch. Wyn Thomas. Braf oedd gweld y capel yn gyfforddus lawn.

Cynhaliwyd Noson Goeden Nadolig yr Ysgol Sul nos Iau, Rhagfyr 29 yn y festri. Cafwyd pryd ysgafn o fwyd ac yna bu'r plant yn chwarae gêmau cyn i Sion Corn gyrraedd i roi anrhegion iddyn nhw.

Ysgol Sul

Braf yw nodi bod Ysgol Sul Capel-y-Cwm yn ffynnu! Yn ddiweddar dechreuodd tri phlentyn newydd sef Ela Griffiths-Jones, Jac Rees ac Elis Jenkins. Os oes unrhyw un arall am ymuno ag Ysgol Sul Capel y Cwm – croeso cynnes i chi i gyd.

Mewn cwrdd ym mis Ionawr, cafodd y plant docyn llyfr am eu ffyddlondeb i'r Ysgol Sul – arian sy'n rhodd o gronfa M.Ll.G. Williams.

Arddangosfa Cynnyrch y Cwm

Ddydd Llun y Pasg, bu Capel-y- Cwm yn llawn bwrlwm a chyffro wrth i bobl o bell ac agos daro i mewn i weld arddangosfa arbennig "Cynnyrch y Cwm". Roedd aelodau a ffrindiau'r Capel wedi dod â phob math o nwyddau i'w harddangos, o gwiltiau i waith coed ac o lyfrau i DVDs – pob peth wedi'u creu a'u gwneud gan bobl y Capel.

Roedd pawb yn mwynhau gweld y cynnyrch a dysgu tipyn o'u hanes. Roedd te a phice bach i bawb cyn troi am adre.

Ysgolion Sul

Daeth nifer o blant o Ysgolion Sul Capel y Cwm a Chapel y Fadfa ynghyd i Festri Cwmsychbant ar Fawrth 17 i sefyll eu harholiad blynyddol. Diolchwyd i Mrs Nana Ryder am baratoi'r gwaith eleni eto.

Capel y Fadfa

Cydymdeimlo

Cymdeimlwn â theulu Tŷ'r Ysgol ar golli Mrs. Joyce Williams, Llanwnnen.

Gwellhad

Ein dymuniadau gorau i Mrs. Mary Thomas, Llygad-yr-Haul yn dilyn ei llawdriniaeth.

Urdd y Benywod

Ym mis Medi dechreuwyd ein tymor trwy gael cinio yn Nhalardd, Llanllwni. Yn dilyn hyn, buom yn cwrdd yn y festri yn rheolaidd i gynnal dosbarthiadau gwaith llaw o dan arweiniad Mrs. Melda Grantham. Gwelir ffrwyth ein llafur yn y llun.

Ysgol Sul

Cynhaliwyd ein gwasanaeth Nadolig nos Sul, 23 Rhagfyr gyda Carys, Ioan, Meryl, Owain, Erin, Caio a Fflur yn cymryd rhan. Mrs. Enfys Llwyd oedd wrth yr organ. Aeth pawb i'r festri wedyn i wledda cyn i Siôn Corn ymweld. Diolchodd y Parch. Wyn Thomas i bawb. Dymuna'r plant ac athrawon ddiolch i bawb am eu cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

Diolch

Mewn gwasanaeth a gynhaliwyd ar 17 Chwefror, cyflwynwyd rhodd i Eirwyn Harries gan y gweinidog. Roedd yn rhodd ar ran aelodau'r capel i ddiolch am ei waith diflino a chyson yn y capel. Hoffai aelodau'r capel ddiolch o waelod calon i Eirwyn am ei ofal ac am y gwaith y mae'n ei wneud er mwyn cadw'r capel ar ei orau.

Capel y Graig

Cydymdeimlad

Trist iawn yw nodi colli un o aelodau'r capel cyn y Nadolig. Bu farw Robert Morris, Graigwrtheyrn ar 16 Rhagfyr 2012 yn Ysbyty Glangwili. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Rhian a'r teulu.

Estynnwn ein cydymdeimlad at deulu Maureen Davies, Gemydd, a fu farw ar 7 Ebrill, 2013, yn ysbyty Glangwili.

Te Cymreig

Cynhaliwyd Te Cymreig blynyddol y capel ar 6 Mawrth. Agorwyd y noson gan un o aelodau'r capel sef Mr Tom Evans, Pencoed, Bangor Teifi. Diolch iddo am ei eiriau doeth ac am ei rodd hael.

Cyflwynwyd anrheg iddo gan Aled Davies. Cafwyd noson lwyddiannus a diolch i bawb a gefnogodd neu a gyfrannodd at yr achos. A dyma lun o gyflwyno'r rhodd, yng nghwmni'r Parch Wyn Thomas.

Derbyn Aelod

Ddydd Sul 28 Hydref, croesawodd y gweinidog aelod llawn newydd i'r capel sef Miss Catrin Thomas, Bryn, Llansadwrn.

Pen-blwydd

Llongyfarchiadau i mawr Cerian Colbourne ar ei phen-blwydd yn 18.

Capel y Groes

Ddydd Sul, 20 Ionawr, mewn Gwasanaeth Cymun dan arweiniad y gweinidog, y Parch Cen Llwyd. cydymdeimlwyd â'r canlynol tros farwolaeth perthnasau neu gymdogion:-

- Ceinwen Roach ar farwolaeth ei brawd-yng-nghyfraith.
- Teulu Lowtre ar farwolaeth dau berthynas gwahanol.
- Mair a Ronnie Davies ar farwolaeth modryb i Mair.
- Teulu Cwmhendryd ar farwolaeth cymydog a ffrind agos.
- Mair Potter a Nans Davies a'u teuluoedd ar farwolaeth eu mam, sef Joyce Williams a oedd yn aelod ffyddlon o'r capel. Cynhaliwyd angladd Joyce ar 1 Ionawr 2013
- Wenna ac Elsa Thomas ar farwolaeth dwy berthynas.

Claddwyd Mary Lewis ym mynwent Capel y Groes ar 12 Ionawr 2013 a Joyce oedd y perthynas arall.

Dosbarthwyd y cymun gan Gwyn Jones a chanwyd yr organ gan Ceinwen Roach.

Cribyn

Ddydd Sul, 9 Rhagfyr 2012, cynhaliwyd Gwasanaeth o Garolau a Darlleniadau yn y capel.

Cyhoeddwyd y carolau gan Bethan Davies, Iwan Davies, Bet Jenkins, Dilwen Jenkins a Cen Llwyd.

Cafwyd eitemau cerddorol gan Ifan Meredith, Ianto Jones a Ronald Thomas a darlleniadau gwahanol gan Rhian Davies, Delyth Evans, Mattie Evans, Cynthia Griffiths, Haf Meredith, Dewi Pws Morris a Morwen Thomas. Rhiannon Jones oedd yn chwarae'r organ. Gwnaed y casgliad tuag at waith Nyrsys Macmillan gan Ifan Meredith.

Amser

Cynhaliwyd Gwasanaeth Cymun ddydd Sul 27 Ionawr dan arweiniad y Parch Cen Llwyd. Thema'r gwasanaeth oedd amser a chafwyd darlleniadau amrywiol ynghyd â sylwadau ar y pwnc. Canwyd cân arbennig gan Dewi Pws Morris.

Llawenydd

Brynhawn Sul, 24 Chwefror, cynhaliwyd Gwasanaeth Cymun gyda'r thema Llawenydd. Canwyd cân arbennig gan Ianto Jones. Yn dilyn y gwasanaeth cafwyd lluniaeth i ddathlu Gŵyl Ddewi—roedd wedi ei baratoi gan y swyddogion.

Cydymdeimlo

Wrth fwrdd y cymun yn y ddau wasanaeth cydymdeimlwyd ag aelodau a oedd wedi colli anwyliaid:

- Bethan Davies a'r teulu ym Mhensarnfach ar farwolaeth tad, tad -yng-nghyfraith a thad-cu a Bethan Davies ar golli modryb.
- Iwan a Mair Davies ar farwolaeth chwaer-yng-nghyfraith a pherthynas yn Llundain.
- Betty a Llew ar golli perthynas.
- Kathleen, Brian, Peggy a Mair ar farwolaeth eu mam, Megan Jones o Lanwnnen. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghribyn ar 12 Ionawr.
- Mike, Rhian a Rhodri Armstrong ac Eurwen Davies ar farwolaeth gwraig, mam a merch. Cynhaliwyd angladd Olwen yng Nghribyn ar 3 Ionawr.
- Eleri, Nicola Frampton a Nancy Evans ar farwolaeth gŵr, tad a mab-yng-nghyfraith. Claddwyd llwch Alwyn ym mynwent Cribyn ar 11 Ionawr.
- Ann Jones ar farwolaeth cysylltiadau teuluol agos.

Ein cydymdeimlad dwysaf â phawb sydd â chysylltiad â'r capel sydd wedi colli anwyliaid a gwellhad buan i'r rhai sydd heb fod yn dda eu hiechyd.

Sul y Mamau

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig ar 10 Mawrth i nodi Sul y Mamau. Cafwyd darlleniadau'n dangos agweddau gwahanol ar fod yn fam. Darllenwyd emynau gan Haf Meredith a Dewi Pws Morris gyda Cynthia Griffiths yn canu'r organ.

Llwynrhydowen

Nos Wener y Groglith, daeth criw da ynghŷd i Festri Llwynrhydowen ar gyfer ein Noson Goffi flynyddol. Llywydd y noson oedd Mrs Catherine Davies, Glennydd, Cwrtnewydd, a chafwyd araith hyfryd gan ei merch, Mrs Anne Evenden, ar ei rhan.

Roedd llond y lle o gacennau o bob math, a phawb yn mwynhau'r gwmnïaeth a'r cymdeithasu wrth godi arian at y Capel.

Pantydefaid

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theuluoedd Mrs. Eileen Philpot, Miss Marged Evans a Mrs. Ada Thomas yn eu galar.

Diolch am rodd

Diolch yn fawr i Allan Jones, Hengoed, am rodd o lestri cymun at ddefnydd y capel.

Gwellhad

Dymunwn wellhad buan i Mr. Tommy Thomas a Mrs. Mari Jones.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i:

- Mark a Katherine Davies ar enedigaeth eu merch, Emily Grace.
- Gwawr Thomas ar gael ei dewis yn forwyn i Frenhines y Sir ac i Carwyn Davies ar gael ei ddewis yn Aelod Iau y Flwyddyn CFfI Ceredigion.
- Gethin Richards a Glesni Thomas ar gynrychioli CFfI Ceredigion yn genedlaethol yn y cystadlaethau Siarad Cyhoeddus ac i Gethin Richards am ennill.

Llawenydd a thristwch

Roedd yna gymysgedd o lawenydd a thristwch mewn digwyddiad gan Urdd y Benywod ddechrau Rhagfyr.

Ddydd Sul yr ail o Ragfyr, daeth aelodau a ffrindiau at ei gilydd yn y festri i ddathlu pen-blwydd Mrs. Eileen Philpot yn 90 oed.

Dechreuwyd trwy gael gwasanaeth byr dan arweiniad y Parch. Wyn Thomas gyda darlleniadau hyfryd gan Mrs Gaynor Richards a Mrs Mary Williams.

Roedd y byrddau wedi eu paratoi yn gelfydd gan Ann ac roedd Alan wedi bod wrthi ers toriad gwawr yn sicrhau bod y cig wedi'i rostio'n berffaith. Cafwyd ham a saws persli gyda digon o ddewis o lysiau ac i ddilyn, cafwyd dewis o bwdin Nadolig neu darten afalau.

Roedd Ann wedi pobi cacen a'i haddurno'n arbennig â llun o'r Capel, a chafodd pawb ei mwynhau gyda choffi Gwyddelig.

Roedd gan Eileen ddau westai o'i dewis yn gwmni iddi – Alan Jones a Wyn Thomas. I gloi'r digwyddiad, darllenodd Ann Jones gerdd o'i gwaith i ddymuno'n dda i Eileen ar ei phen-blwydd arbennig.

Yn anffodus, dim ond dau ddiwrnod wedi'r achlysur llawen hwn, cawsom siom a thristwch o glywed am farwolaeth sydyn Eileen ac estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at ei chwaer, Mrs Nansi Martin, a'r teulu oll yn eu colled.

Punch a Paté

Ar 19 Rhagfyr cynhaliwyd noson o 'Punch, Paté a Mins Peis'. Bu'r noson yn llwyddiannaus iawn, gyda'r tîm gweithgar arferol yn helpu o dan oruchwyliaeth Ann ac Alan. Roedd y bwyd yn flasus iawn ac o'r safon uchaf. Gorffennwyd y noson gyda choffi Gwyddelig a danteithion bach siocled.

Diolch i Mattie Evans, Llywydd Urdd y Benywod Ceredigion, am ei phresenoldeb a'i geiriau caredig. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd i wneud y noson yn llwyddiant.

Colofn Dylan Iorwerth

Ac eto nid Undodwr

Roedd yna dipyn o sylw ddiwedd mis Mawrth i fardd enwog sydd â chysylltiad ag ardal y Smotyn Du.

Wrth inni gofio canmlwyddiant geni R. S. Thomas, efallai mai ychydig o bobol oedd yn sylweddoli mai mab tafarn y Porth yn Llandysul oedd ei dad.

Er mai offeiriad gyda'r Eglwys yng Nghymru oedd Ronald Stuart Thomas, mae'n haeddu parch Undodiaid. Holi, nid addoli, yr oedd o.

Er mai Thomas oedd ei enw, nid amheuwr oedd o, ond chwiliwr. Chwiliwr oedd yn gwybod nad oedd modd ffeindio'r ateb.

Yn ei gerddi, mae'n sôn am Dduw mewn llawer o wahanol ffyrdd, ond Duw yw hwn nad oes modd ei weld na hyd yn oed ei glywed. Mae'n sôn am gynnau canhwyllau mewn eglwys, fel petai rhywun yn gobeithio y daw Duw at y golau fel gwyfyn mawr.

Mae'n sôn am ymladd gyda chysgod Duw ac yn dweud bod ei gred, fel hebog, yno un funud ac wedyn yn diflannu eto. Ac yntau'n hoff iawn o wylio adar, mae'n awgrymu'n aml – yn enwedig ar ôl ymddeol o'r Eglwys – mai ym myd natur yr oedd yn dod agosa' at yr ysbrydol.

Ond nid rhyw hipi yn credu yn y Fam Ddaear oedd o chwaith. Roedd byd natur a'r broses o wylio'n dawel yn debyg i'w ddisgrifiadau o aros mewn eglwys yn aros i rywbeth ddod.

Nid Undodwr oedd R. S. Thomas – nid y rheswm oedd bwysica' ganddo; rhyfeddod Duw oedd hynny. Rhyfeddod a dirgelwch.

Eto, mewn sawl ffordd, roedd yn debyg i Undodwr. Roedd yn barod i dderbyn y darganfyddiadau mawr gwyddonol diweddar am natur y bydysawd ei hun.

Roedd yn debyg hefyd am ei fod yn fodlon chwilio y tu allan i'r Beibl am y gwir. Mae ei waith yn dangos ei fod yn chwilio yn yr ysgrythurau mawr eraill am syniadau a gwirionedd.

Mewn cyfweliad tua diwedd ei oes, fe ddywedodd y bardd nad oedd yn "Gristion uniongred o gwbl". Roedd yn ei chael yn anodd i feddwl am Grist fel "fy iachawdwr a'r math hwnnw o beth".

Dim ond rhyw lond llaw o weithiau y gwnes i gwrdd ag R. S. Thomas a'i gael – yn groes i ddarlun papurau Lloegr - yn ddyn caredig a diddan. Ond mae gen i ddarlun yn fy nychymyg ohono.

Mae'n eistedd mewn llannerch o goed, ei sbienddrych yn ei law, yn aros yn llonydd a thawel. Mae'n aros yn astud am rywbeth. Mae'n clywed sŵn. Mae'n meddwl mai Duw sydd yno. Mae'n troi, ond y cyfan sydd i'w weld ydi ei gysgod ef ei hun.

Onid rhywbeth fel yna ydi hi i ni i gyd?

Apêl yr hen gapeli

Fe ddaeth D. Huw Owen, cyn Geidwad Lluniau a Mapiau'r Llyfrgell Genedlaethol i Gapel y Cwm i siarad yn ddifyr am gapeli'r Undodiaid. Mae'n un o ymddiriedolwyr *Capel*, y corff sydd bellach yn gofalu am Lwynrhydowen. Dyma gofnod o'r sgwrs gan Dylan Iorwerth.

Elaine Davies, Llywydd y Gymdeithas yn cyflwyno copi o'r darlun o'r tri chapel ar ddeg i D. Huw Owen

Fe gafodd un o dadau'r Methodistiaid ddod i mewn i gapel Undodaidd am y tro cynta' – wrth i D Huw Owen ddangos llun o Daniel Rowland, Llangeitho, yn ystod darlith yng Nghapel y Cwm.

Rhan o gefndir yr enwad oedd hynny, wrth i'r arbenigwr hynaws o Aberystwyth siarad am adeiladau ein capeli ni a'u rhoi nhw yng nghyd-destun gweddill y wlad.

Y capeli yw ein "pensaernïaeth genedlaethol", meddai Huw Owen, gan nodi fod mwy a mwy o sylw i hynny er gwaetha'r dirywiad mewn crefydd – "rhyfedd fod y diddordeb ar gynnydd wrth i'r dylanwad leihau".

Ac yntau'n awdur llyfrau ar gapeli Cymru, roedd Huw Owen wedi cynnwys sawl capel Undodaidd, meddai, ac oni bai am yr angen i gadw'r ddysgl yn wastad o ran daearyddiaeth, fe fyddai wedi cynnwys rhagor o rai'r Smotyn Du.

Ond roedd y rhai a ddewisodd yn dangos newid tros y blynyddoedd, a hynny'n debyg iawn i'r newid yng nghapeli'r enwadau eraill, o gapeli syml iawn i rai llawer mwy crand.

Roedd hen gapel Llwynrhydowen, meddai, yn "debyg iawn i nifer o'r adeiladau gwledig oedd yn cael eu codi yn yr ardaloedd hynny" tra oedd gan Brondeifi – a'r Graig a Bwlch y Fadfa – "elfen eglwysig"

Ym Mrondeifi y mae un o drysorau'r enwad — ffenest liw gan John Petts.

gyda thŵr yn rhan o'r cynllun ar droad yr ugeinfed ganrif.

Wrth olrhain y newid, a dangos fel yr oedd hyn yn adlewyrchu newid ehangach, o'r capeli Cymreig cynhara' ym Maesyronnen, Brycheiniog, a Nanhoron ym Mhen Llŷn i gapeli anferth fel y Tabernacl, Treforys, roedd y ddarlith yn llawn darnau difyr o wybodaeth a sylwadau sionc.

Ym Mrondeifi y mae un o drysorau'r enwad – ffenest liw gan yr arlunydd John Petts, a Huw Owen yn cofio am yr artist yn cael ei dalu "fesul llath" am gopïau o'i gynlluniau ar gyfer ffenestri lliw.

Un arall o gapeli'r Undodiaid yw'r mwya' poblogaidd yng Nghymru – mae Penrhiw bellach yn amgueddfa Sain Ffagan ac yn denu cannoedd o filoedd o ymwelwyr bob blwyddyn.

Mae'r ffigurau o'r Cyfrifiad Eglwysig yn 1851 yn awgrymu fod cannoedd o bobl yn y capeli Undodaidd ar y dydd Sul perthnasol ond y byddai amryw ohonyn nhw ar eu traed trwy gydol yr oedfa.

Y tu cefn i'r adeiladau, roedd y bobl yn bwysig a Huw Owen yn pwysleisio'r parch oedd yna tuag at arweinwyr cynnar yr Undodiaid a "safon uchel y gweinidogion".

Roedd Jenkin Jones, er enghraifft wedi cyfiethu amryw o lyfrau pwysig, roedd sôn y gallech chi glywed Dafydd Llwyd Brynllefrith yn pregethu o bellter o filltir a hanner ac roedd Dafydd Dafis, Castellhywel, yn ffrind i rai o feddylwyr mwya' blaengar a radical ei ddydd.

O ganlyniad, meddai Huw Owen, roedd yr Undodiaid wedi "datblygu'n bobl annibynnol eu barn, yn ymateb i'r gweinidogion galluog oedd ganddyn nhw".

Roedd yna ymroddiad i'r achos hefyd, gyda dyledion Brondeifi, er enghraifft, ar gyfer y capel gwreiddiol yn 1876, a'r ail adeilad wedyn, wedi eu clirio'n fuan iawn a mwy na 1,000 o bobl yn cyfrannu at dreuliau'r capel newydd.

Doedd y traddodiad ddim ar ben, chwaith – yn ddiweddar iawn pan gafodd Capel Gellionnen yng Nghwm Tawe ei daro'n ddrwg gan fandaliaid, roedd cronfa wedi codi digon o arian ar unwaith bron i ddadwneud y difrod.

"Mae hyn yn galondid," meddai Huw Owen. "Fod yna frwdfrydedd mawr wedi bod i adfer y capel."

Elystan ... bron yn Undodwr!

Un o lyfrau poblogaidd y flwyddyn yw atgofion yr Arglwydd Elystan Morgan, cyn AS Ceredigion a barnwr. Mae'r penodau cynta'n dangos fod ganddo gysylltiadau agos gyda'r Undodiaid a'r Smotyn Du ...

"Roedd fy nhad a'm mam yn hanu o hen deuluoedd Sir Aberteifi. Disgynnai fy mam o dylwyth y bardd a'r gweinidog Daniel Ddu o Geredigion ac roedd y teulu wedi byw am genedlaethau lawer yn Nyffryn Aeron. . . ." (Tud 13)

Elystan Morgan (Llun gan Lluniau 77 ar drwydded CCA 3.0)

"Yn dilyn marwolaeth Mam, fe edrychodd fy mam-gu yn dyner iawn ar ein hôl.

Roedd hi'n hen iawn pan oeddwn i'n ei nabod hi, ac wedi'i geni yn 1859. Deuai o deulu o Undodiaid yn Nyffryn Aeron, a darllenai eu cylchgrawn, *Yr Ymofynnydd*, o glawr i glawr, a hefyd yn helaeth o'i Beibl yn ddyddiol.

Menyw fach fer oedd hi, ychydig dros bum troedfedd, ond maeddai ar bersonoliaeth hynod gadarn. Mae yna ddau hanesyn yn tystio i hynny.

Roedd brawd hŷn iddi, Gwilym Evans, yn fachgen o gryn ddisgleirdeb ac yn fyfyriwr diwinyddol yn Rhydychen. Bu'n ddiweddarach yn weinidog blaenllaw gyda'r Undodiaid ac yn fugail ar eglwys Pantydefaid.

Pan oedd Mam-gu'n eneth un ar bymtheg oed, fe ddaeth neges fod ei brawd yn ddifrifol wael yn dioddef o'r *rheumatic fever,* ac ofnid ei fod ar farw. Nid oedd Mam-gu wedi cael fawr o addysg ar ôl iddi gyrraedd deuddeg oed, ac mae'n amlwg mai crap digon ansicr oedd ganddi ar yr iaith fain. Serch hynny, fe aeth ar drên ar ei hunion i Rydychen ac fe nyrsiodd ei brawd am ddeufis, a'i dywys trwy'r argyfwng. Meddyliais lawer gwaith am y Gymraes fechan honno'n wynebu'r holl anawsterau, a'r ansicrwydd, yn y ddinas estron, ond ei serch tuag at ei brawd, 'Bill' fel y'i galwai, yn goresgyn y cyfan. Stori ddigon brawychus yw'r llall. Daw pob plentyn yn ei gyfnod, rywbryd neu'i gilydd, wyneb yn wyneb â sefyllfa arswydus. Digwyddodd hyn i mi pan oeddwn tua wyth mlwydd oed.

Cyrhaeddais adref o'r ysgol un amser cinio (ni ddarperid cinio ysgol bryd hynny), a chael sefyllfa echrydus yn fy wynebu. Roedd fy mam-gu, a hithau dros ei phedwar ugain, wedi syrthio i lawr y grisiau ac wedi'i hanafu'n ddifrifol. Roedd wedi torri pont ei hysgwydd, ei choes a'i hasennau, wedi dioddef archoll difrifol ar ei thalcen, ac wedi'i gorchuddio mewn gwaed.

Dyma lle roedd fy mam, a'i breichiau amdani mewn cadair, yn gweddïo y byddai'n dal yn fyw tan y deuai'r meddyg. Cofiaf fy mam yn ei dagrau'n dweud , 'Peidiwch, peidiwch â marw, Mam fach', a Mam-gu'n ateb, gyda'r holl gadernid oedd iddi, 'Bihafiwch eich hunan, Olwen, a ce'wch i neud bwyd i'r crwt.'

Bu farw yn 1950, yn 91 oed. . . . " (Tud 32/33)

Allan o *Atgofion Oes Elystan,* Y Lolfa, 2012